

# Cyllideb 2021/22

# Rhondda Cynon Taf

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF – PROFFIL YR AWDUROD**

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei ffurfio yn 1996 o dair o ardaloedd yr hen Forgannwg Ganol. Mae 241,873<sup>1</sup> o bobl yn byw yma, ac o ran y boblogaeth felly, dyma'r trydydd awdurdod unedol mwyaf yng Nghymru. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu arwynebedd o 424km<sup>2</sup> yng Nghymoedd y De, yn ymestyn o Fannau Brycheiniog i'r gogledd i ddinas Caerdydd i'r de.

Mae'r tair ardal ddaearyddol sy'n ffurfio Rhondda Cynon Taf yn rhannu ystod o nodweddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau uchel o dlodi cymharol ac o allgau cymdeithasol, yn enwedig yng nghymoedd gogleddol y sir. Gan y rhain mae rhai o'r dangosyddion amddifadedd uchaf yn y Deyrnas Unedig.

Caiff gwasanaethau'r Cyngor eu rheoli a'u cynnal gan ei gyfadrannau sy'n rheoli a chydlynu gwasanaethau cysylltiedig. Mae pedair cyfadran yn strwythur cyfredol y Cyngor:

Gwasanaethau Addysg  
a Chynhwysiant

Cynnal gwasanaethau cymorth i ysgolion; Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad; Derbyn Disgyblion a Llywodraethu; Mynychu'r Ysgol a Lles; Ysgolion yr 21ain Ganrif; Rheoli Asedau a Data; Gwasanaethau Arlwygo a gwasanaethau gwella ysgolion a her mewn partneriaeth â Chonsortium Canolbarth y De.

Gwasanaethau Cymuned  
A'r Gwasanaethau i Blant

Darparu Gwasanaethau i Oedolion (Gwasanaethau Gofal Cymuned a Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol); Gwasanaethau i Blant; Gwasanaethau Tai Cymunedol; Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd; Gwasanaethau Hamdden, Cefn Gwlad a Gwasanaethau Diwylliannol (gan gynnwys Theatrau); Atyniadau Ymwelwyr a Threftadaeth; Gwasanaethau Addysg yn y Gymuned; Llyfrgelloedd; Gwasanaethau Cymraeg; Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid; a Rhaglenni Cyflogaeth.

---

<sup>1</sup> (241,873) – amcangyfrifiad canol blwyddyn 2020

Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen

Darparu gwasanaethau rheng flaen Priffyrdd; Cludiant; Prosiectau Strategol; Gwasanaethau Gofal y Strydoedd (gan gynnwys Gwastraff a Glanhau Strydoedd) a'r Parciau; ynghyd â Gwasanaethau Adfywio, Materion Tai a Chynllunio, Achlysuron, Twristiaeth a Dylunio.

Prif Weithredwr


Darparu swyddogaethau Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar draws yr Awdurdod; gwasanaethau rheng flaen Gofal i Gwsmeriaid, Gweinyddu Budd-dal Tai a Threth y Cyngor; a gwasanaethau cymorth allweddol Cyllid, TGCh a Gwasanaethau Digidol, Eiddo Corfforaethol a Chaffael.

## **Refeniw'r Gronfa Gyffredinol: Math o wariant 2021/22**

<b>Cyllideb 2020/21</b>		<b>Cyllideb 2021/22</b>
<b>£miliwn</b>		<b>£miliwn</b>
317.222	Gweithwyr	321.383
30.083	Adeiladau/Safleoedd	30.050
25.303	Trafnidiaeth	26.397
86.727	Cyflenwadau a Gwasanaethau	91.311
146.538	Trydydd Parti	160.657
88.089	Taliadau Trosglwyddo	80.680
5.087	Gwasanaethau Cymorth	5.135
27.751	Cyllid Cyfalaf	29.133
<b>726.800</b>	<b>Cyfanswm y Gwariant</b>	<b>744.746</b>
<b>(218.053)</b>	<b>Cyfanswm yr Incwm</b>	<b>(216.843)</b>
<b>508.747</b>	<b>CYLLIDEB REFENIW NET</b>	<b>527.903</b>
	Ariannwyd gan:	
(306.875)	Grant Cymorth Refeniw	(325.125)
(81.791)	Trethi Annomestig	(79.250)
(0.800)	Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn	(0.711)
(3.400)	Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol <sup>2</sup>	(4.075)
<b>115.881</b>	<b>I'W DALU GAN DALWYR TRETH Y CYNGOR</b>	<b>118.742</b>

<sup>2</sup>Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Blant yn 2020/21

### Sut caiff yr arian ei wario - Cyllideb 2021/22




**RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y CYNGOR**


CYFADRAN	CYLLIDEB		
	2021/22	2022/23	2023/24
	£miliwn	£miliwn	£miliwn
<b>Gwasanaethau Cymuned a'r Gwasanaethau i Blant</b>			
Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant	4.703	1.995	0.495
Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned	1.633	0.495	0.495
<b>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</b>			
Ysgolion	17.565	0.342	0.140
Rhaglen Gyfalaf Atodol	7.170	3.875	3.875
<b>Cyfadrn y Prif Weithredwr</b>			
Gwasanaethau Cyllid a Digidol	0.700	0.700	0.700
Eiddo'r Cyngor	1.200	0.925	0.925
<b>Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen</b>			
Adfywio a Chynllunio	6.726	0.763	0.600
Tai'r Sector Preifat	13.522	5.950	5.150
Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd	12.949	1.805	1.805
Cynlluniau Strategol	12.076	0.165	0.165
Strategaeth Gwastraff	0.888	0.000	0.000
Fflyd	2.081	1.573	1.573
Adeiladau	0.100	0.100	0.100
<b>CYFANSWM CYLLIDEB CYFALAF</b>	<b>81.313</b>	<b>18.688</b>	<b>16.023</b>

\* Mae cyllideb 2021/22 yn cynnwys amcangyfrif o lithriant o 2020/2021, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno'r rhaglen tair blynedd.

### Rhaniad Gwariant Cyfalaf fesul cyfadran 2021/22



### Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf 2021/22




**REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL: GWASANAETHAU SY'N CAEL EU  
CYNNAL**

<b>Cyllideb 2020/21</b>		<b>Cyllideb 2021/22</b>
<b>£miliwn</b>		<b>£miliwn</b>
	<b><u>Gwasanaethau Cymuned a'r Gwasanaethau i Blant</u></b>	
91.604	Gwasanaethau i Oedolion	94.877
49.369	Gwasanaethau i Blant	54.466
2.567	Trawsnewid	2.618
16.395	Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned	16.625
<b>159.935</b>		<b>168.586</b>
	<b><u>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</u></b>	
30.582	Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (heb eu dirprwyo)	31.941
161.578	Ysgolion Dirprwyedig	163.784
<b>192.160</b>		<b>195.725</b>
	<b><u>Cyfadran y Prif Weithredwr</u></b>	
0.391	Prif Weithredwr	0.388
2.913	Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	2.948
11.997	Adran Adnoddau Dynol	12.088
1.636	Y Gwasanaethau Cyfreithiol	1.613
10.702	Gwasanaethau Cyllid a Digidol	10.840
3.255	Eiddo'r Cyngor	2.980
<b>30.894</b>		<b>30.857</b>
	<b><u>Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen</u></b>	
2.791	Gwasanaethau Ffyniant a Datblygu	2.778
52.495	Gwasanaethau Rheng Flaen	57.594
<b>55.286</b>		<b>60.372</b>
<b>438.275</b>	<b>Cyfanswm Cyllideb Cyfadrannau</b>	<b>455.540</b>
	<b><u>Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan</u></b>	
19.713	Cyllid Cyfalaf	19.950
12.438	Ardollau	12.874
13.216	Amrywiol	13.780
0.425	Rhyddhad Ardreth Annomestig	0.425
24.680	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	25.334
<b>70.472</b>	<b>Cyfanswm Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan</b>	<b>72.363</b>
<b>508.747</b>	<b>CYFANSWM CYLLIDEB REFENIW</b>	<b>527.903</b>

\* Mae ffigurau 2020/2021 yn cael eu nodi er gwybodaeth. Gall newidiadau o ran gofynion cyfrifyddu a chyfrifoldebau swyddogaethol amrywio'r darlun wrth gymharu blynyddoedd.



## Rhaniad Cyllideb Gwariant Refeniw 2021/22



### Rhai ffeithiau allweddol o ran cyllideb 2021/22 y Cyngor

- Cynnydd o 3.8% yn y cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhondda Cynon Taf
- Parhau i roi unrhyw adnoddau sydd ar gael i wasanaethau â blaenoriaeth uchel sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid
- Cynnydd o 2.65% yn Nhreth y Cyngor (51c yr wythnos ar gyfer eiddo Band A)
- Cyllid priodol yn cael ei roi yn ei le ar gyfer cyflogau, costau heb fod yn gyflogau, cyllid corfforaethol, ardollau a beichiau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor
- Cynnydd o £2.2miliwn i ysgolion, sy'n ariannu'n llawn chwyddiant a phwysau mewn perthynas â chyflogau a heb fod yn berthnasol â chyflogau.
- Balansau (Cronfeydd Refeniw)<sup>3</sup> o £8.505 miliwn ar 31 Mawrth 2021 gyda chynlluniau clir ar waith i ailgyflenwi i'r lefel isaf a argymhellir o £10miliwn
- Arbedion effeithlonrwydd sylweddol ar draws holl wasanaethau (£4.6 miliwn)
- Defnyddio £0.711 miliwn o gronfeydd wrth gefn (Cronfa Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a Chronfa Trawsnewid Gwasanaeth) yn gyllid trosiannol a £4.075 miliwn o arian untro a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pwysau ar gyllid Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Blant
- Proses ymgynghori ar-lein ar y gyllideb ac opsiynau amgen ar gyfer preswylwyr/rhanddeiliaid y mae'n well ganddyn nhw ddulliau ymgysylltu mwy traddodiadol

<sup>3</sup> Balansau (Cronfeydd Refeniw) wedi'u cynnal uwchben £10 miliwn cyn y dyraniad brys o £1.5 miliwn i gefnogi'r gofynion adfer sy'n deillio o Storm Dennis ym mis Chwefror 2020.

### **Pencadlys Gwasanaethau Cymuned a'r Gwasanaethau i Blant**

Uned B1, Tŷ Elái, Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf (Dwyrain) Tonypany CF40 1NY	Tŷ Trevithick Abercynon Ysgol Gyfun Aberpennar CF45 4UQ
---	---

Ffôn: (01443) 442100

Ffôn: (01443) 744000

### **Prif Swyddfa Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant**

Tŷ Trevithick  
Abercynon  
Ysgol Gyfun Aberpennar  
CF45 4UQ

Ffôn: (01443) 744000

### **Pencadlys Cyfadran y Prif Weithredwr**

Tŷ Bronwydd Bronwydd Porth CF39 9DL	Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX
--	---

Ffôn: (01443) 680500

Ffôn: (01443) 424000

### **Cyfadran Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen**

Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian  Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX	Tŷ Glantaf Uned B23, Ystad Ddiwydiannol Trefforest Pontypridd CF37 5TT
---	--

Ffôn: (01443) 424000

Ffôn: (01443) 425001

Tŷ Sardis  
Heol Sardis  
Pontypridd  
CF37 1DU

Ffôn: (01443) 494700

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg / You are welcome to communicate with us in Welsh.